Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Llun 15fed Gorffennaf 2024

Arlein

11:00 (Cyfarfod ARAC i Aelodau) **11:10 – 11:15** (aelodau ac archwilwyr ARAC)

11:15 – 1:30 (pwyllgor llawn)

Mair Gwynant	Aelod Pwyllgor [Cadeirydd]
Alan Morris	Aelod Pwyllgor
Fran Targett	Aelod Pwyllgor
Peter Davies	Aelod Pwyllgor
Annmarie Thomas	Aelod Pwyllgor
Phil George	Aelod Pwyllgor
Nicola Williams	Aelod Pwyllgor
Sabiha Azad	Aelod Pwyllgor (hyfforddai)
Samer Karrar	Aelod Pwyllgor (hyfforddai)
Princess Onyeanusi	Aelod Pwyllgor (hyfforddai)
Shameem Nawaz	Intern Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Derek Walker	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Marie Brousseau Navarro	Dirprwy Gomisiynydd & Chyfarwyddydd Iechyd
Lisa Pitt	Cyfarwyddydd Cyllid a TG
Helen Nelson	Cyfarwyddydd Cynllunio Strategol & Hinsawdd [Ysgrifenyddiaeth]
Clare James	Archwilydd Allanol Archwilio Cymru
Mike Collier	Archwilydd Mewnol TIAA

RHAN 1 – SICRWYDD

-

Nododd Mair y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at bwrpas cymryd cofnodion a'i ddileu yn syth ar ôl hynny.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau buddiant**

   Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau buddiant

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Office of the Future Generations Commissioner
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CF11 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi [1 papur]

- Tudalen 1 – Penodi cadeirydd ARAC. Dylai'r cofnodion egluro, er mai'r Comisiynydd yn gyfreithiol sy'n gwneud y penodiad, bod y Pwyllgor wedi cytuno arno. Cytunwyd i edrych ar y Cylch Gorchwyl i wneud yn siwr bod y confensiwn sy'n arwain at y penodiad yn glir.

- Tudalen 3 para 4. Ychwaneger y gair "*gwirfoddol*".

Yn amodol ar y newidiadau hyn cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

CAMAU GWEITHREDU:

2.1 Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r cofnodion fel eu bod yn adlewyrchu hyn.

2.2 Edrych ar y Cylch Gorchwyl i egluro proses penodi'r Cadeirydd.

3. Archwilio allanol [Clare James]

Derbyniodd y pwyllgor yr adroddiad gan Archwilio Cymru. Dechreuodd archwilio allanol ym mis Gorffennaf 2024, a dau draean o'r ffordd drwodd, mae'n mynd yn dda. Cyflwynir adroddiad terfynol yn gynnar ym mis Awst. Nid oes dim i'w ddwyn i sylw ARAC ar hyn o bryd. Diolchodd y Pwyllgor i Clare James a'r tîm am ei gwaith.

4. **Archwilio allanol [Mike Collier]**

Adolygiad dilynol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar yr adolygiad dilynol blynyddol, a gadarnhaodd bod wyth o'r holl argymhellion a wnaed yn flaenorol wedi'u gweithredu a phedwar heb eu gweithredu (1 wedi'i ddisodli gan system arall). Roedd y rhai a oedd yn weddill o risg isel ac yn symud tuag at gwblhad. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod cynnydd ar y gweill.

Adroddaid Cryno ar Sicrwydd Rheolaeth (SICA) Gorffennaf 2024.

Diolchodd y Pwyllgor i TIAA am adroddiad SICA. Cytunwyd y byddai Lisa yn dosbarthu'r rhestr o sesiynau briffio misol a dderbyniwyd gan TIAA i ARAC ac i aelodau'r Uwch Dîm Arwain, er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor fynediad amserol iddynt.

Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25

Cadarnhawyd y byddai'r cynllun archwilio newydd yn cael ei gytuno yn dilyn cyfarfod mis Hydref 2024, pan fyddai gan y Pwyllgor ymdeimlad cliriach o'r gofrestr risg newydd a bylchau mewn sicrwydd. Nododd y Pwyllgor fod adolygiadau eleni ar lywodraethu corfforaethol (a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol eto y llynedd) a rheolaeth rhanddeiliaid yn llai o flaenoriaeth. Byddai'n fwy defnyddiol cael hyblygrwydd yn dilyn yr hyfforddiant risg ym mis Hydref.

- Cytunwyd i gynnwys hyfforddiant risg yng nghyfarfod ARAC ym mis Hydref a chytunwyd y dylai'r Archwiliadau Mewnol arfaethedig ar seiberddiogelwch a rheolaethau ariannol allweddol barhau.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Office of the Future Generations Commissioner
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CF11 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

Cynnydd PAPAC yn erbyn argymhellion **Marie Brousseau Navarro**
Cyflwynodd y Dirprwy Gomisiynydd yr eitem hon a nododd y byddai'r swyddfa'n adrodd yn ôl yn brydlon. Diolchodd y Pwyllgor i dîm y Comisiynydd am yr adroddiad defnyddiol hwn - nodwyd cam gweithredu bach - colofn M/N i'w dyddio.

CAMAU GWEITHREDU:

4.1 Y Cyfarwyddydd Cynllunio i ddosbarthu'r rhestr fisol briffio TIAA i ARAC a'r Uwch Dîm Arwain er gwybodaeth amserol, wrth iddynt ddod i mewn.

4.2 TIAA i barhau gyda'r adolygiadau ar reolaethau ariannol allweddol a seiberddiogelwch yn 2024.

4.3 TIAA mewn cydweithrediad â'r Dirprwy Gomisiynydd i lunio hyfforddiant risg ar gyfer aelodau ARAC a'r Uwch Dîm Arwain fel rhan o gyfarfod mis Hydref.

4.4 Mair, Lisa a Marie i gysylltu â TIAA i ailedrych ar y cyllun archwilio ar ôl hyfforddiant risg mis Hydref 2024.

4.5 Marie Brousseau Navarro i weithredu enw'r golofn yn argymhellion PAPAC.

5. **Cyllid ac Adnoddau** **Lisa Pitt**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cyllid. Y prif bwyntiau a nodwyd oedd:

- Mae hon yn sefyllfa ariannol galonogol – mae'r ailstrwythuro yn 2023 wedi ein rhoi mewn sefyllfa gymharol dda.
- Sicrhawyd cyllid cynllun gweithredu rhyngwladol ychwanegol, sy'n golygu y gellid ailddosbarthu £21,000 o'r gwariant a neilltuwyd ar gyfer peth o'r gwaith hwn yn ôl i gyllideb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 23% wedi ei wario ar ddiwedd Chwarter 1.
- Un i'w wylio: Gwobrau cyflogres. Os bydd Llywodraeth Cymru'n dyfarnu mwy na'r hyn yr ydym wedi'i gyllidebu dros dro, yna efallai y bydd angen i'r swyddfa addasu ei chyllideb i dalu'r costau hyn.
- Cynyddodd cyfradd pensiwn y cyflogwr i 28.97% - rydym yn aros i glywed a fydd Llywodraeth Cymru yn helpu i gyfrannu at hyn.

6. **Adroddiad Chwarterol** **Derek Walker**

Adroddiad Eithrio Chwarterol
Nododd y Comisiynydd bod dau ddigwyddiad diogelwch TG wedi eu hadrodd, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen, gan gynnwys lladrad o gyfrifiadur Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Trafodwyd hyn yn fanwl gan y Pwyllgor a nododd:

- Bod adolygiad mewnol wedi ei gynnal ac er nad oedd angen i'r Comisiynydd wneud hynny, adroddodd yn ffurfiol ar y digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cynghorodd hunanasesiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.
- Nad oedd unrhyw fynediad i systemau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi eu canfod (e.e. Dynamics neu Office 365) ac mae cyngor arbenigol wedi dod i'r casgliad nad oes bygythiad parhaus o'r lladrad. Yn ffodus, ymddengys bod y digwyddiad wedi'i gyfyngu, fodd

bynnag, yn ôl y Comisiynydd a'r tîm cael a chael oedd hi, a hynny'n gofyn am lawer o ddysgu a hyfforddiant tîm pellach.

- Er bod gan y swyddfa Achrediad Sicrwydd Gwybodaeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (IASME), mae'n awyddus i brofi'r systemau a'r prosesau ymhellach gyda'r adolygiad mewnol ar seiberddiogelwch sydd ar ddod.
- Mae'r mater hwn yn risg fawr i bob sefydliad. Roedd y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd a'r tîm wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor.

Cofrestr Risg **Marie Brousseau Navarro**

Cyflwynodd y Dirprwy Gomisiynydd y gofrestr risg newydd.

Y prif bwyntiau a drafodwyd oedd:

- Bod croeso i'r fformat newydd fel un a oedd yn haws i'w ddilyn.
- Bod angen iddo ffocysu mwy ar (a) symudiad risg – beth sydd wedi newid ers Cyfarfod diwethaf y Pwyllgor; a (b) bod angen tynhau'r disgrifiad o risg e.e.*"mae yna risg y bydd...a achoswyd gan….A fydd yn effeithio ar*….
- Gan fod risg yn esblygu'n gyson, ymddengys bod y dull newydd o weithredu'n cynnig ymagwedd briodol tuag at reoli ac adrodd ar risg.
- Yn y dyfodol, hoffai ARAC i'r gofrestr gael ei chyflwyno fel taenlen eithriedig gyda naratif syml wedi ei atodi sy'n nodi'r hyn sydd wedi newid.
- Ystyrir y risgiau yn fanwl yn ystod y sesiwn hyfforddi Risg ym mis Hydref 2024.

CAMAU GWEITHREDU:

6.1 Y Dirprwy Gomisiynydd i wneuud mân newidiadau i'r gofrestr risg i dynhau'r disgrifiadau risg.

7. Adroddiadau Blynyddol Statudol

Adroddiad blynyddol ARAC **Alan Morris**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol ARAC, y dosbarthwyd drafft ohono i aelodau'r Pwyllgor gan Alan. Diolchoch y Cadeirydd i Alan am ei holl waith.

Yn y dyfodol, byddai'r Pwyllgor yn mabwysiadu ffurflen hunan-asesiad y gellid ei haddasu ar gyfer yr hyfforddeion. Byddai'r Cadeirydd yn creu papur byr yn disgrifio'r broses hunanasesu yn y flwyddyn ariannol newydd yn barod ar gyfer cyfnod adrodd 2024/25.

Adroddiad Blynyddol Statudol

Ystyriodd ARAC yr adroddiad perfformiad sy'n cydfynd ag adrannau cyfrifon a llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol, gan ddarparu gorolwg o weithgaredd ac effaith.

Roedd ymagwedd newydd wedi ei threialu i leihau cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, ynghyd â ffeithluniau o Ddangosydd Perfformiad Allweddol.

- Roedd ARAC yn hoffi'r fformat byrrach.
- Tra bod pwrpas y ddogfen yn rhan o adrodd corfforaethol, mae cael y cyfathrebu'n iawn yn bwysig, fel rhan o ymdrechion ehangach i egluro'r newidiadau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio'u cyflwyno.
- Parthed yr Adroddiad Atebolrwydd, mae'r cynnwys yn fanwl ac nid yw'n hawdd ei ddeall. Er y cydnabuwyd bod hyn yn gysylltiedig â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), roedd y Pwyllgor yn rhyw feddwl a ellid, hwyrach, ei grynhoi a'i gyflwyno'n well yn y dyfodol. Cadarnhaodd CJ fod yr adroddiad yn cydymffurfio â (FReM).
- Bydd y datganiadau ariannol yn cael eu trafod yng nghyfarfod mis Awst.

CAMAU GWEITHREDU:

7.1 Y Cadeirydd i greu papur byr yn disgrifio'r broses hunanasesu, yn y flwyddyn ariannol newydd yn barod ar gyfer cyfnod adrodd 2024/25.

7.2 Cyfarwyddydd Cyllid i gylchredeg y datganiadau ariannol cyn cyfarfod mis Awst.

8. Unrhyw Fusnes Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.

Roedd dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol wedi eu dosbarthu i'r aelodau.

Byddai cyfarfod mis Hydref yn gyfarfod deuddydd wyneb yn wyneb (ac yn cynnwys hyfforddiant risg).